YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 39. RHIF 1 MEHEFIN 2017 50c

# Y PASG YN LERPWL

## *Dathlwyd y Pasg ymhlith Cymry'r Glannau a Manceinion*



***Rhannu wyau'r Pasg wedi'r oedfa bore Sul y Pasg***

**MILIYNAU O GROESAU**
**Cofiwn bennill Ifan Roberts**

*Miliynau o groesau*
*A gyst rhyfel o hyd,*
*Ond un groes yn unig*
*A bryn heddwch y byd.*

---

*Daeargryn mewn bedd oedd Mab Duw*
*(J. Saunders Lewis)*

---

**YR HOELION**
*Dim ond un all estyn llaw*
*A hoelion drwy ei ddwylaw*
*(Ken Griffiths)*

**YN Y RHIFYN HWN**

---

Eisteddfod Cymry Manceinion.
Cofio Yr Arglwydd
Gwilym Prys-Davies.
Newyddion Seion, Penbedw;
Bethania; Bethel,
Cymry Birkenhead.
Cronfa Arbennig.
Taro Post.
Cystadleuaeth Limrig.



***Cantorion Bethel***

Golygyddol

# ETHOLIAD BREGSIT 2017

## gan D. Ben Rees

Dilynais pob Etholiad Cyffredinol oddiar 1945, rhai yn fwy na'i gilydd, ond gyda syniad da beth oedd prif achosion ymladd yr etholiadau. Yn 1945 yr oedd yr angen yn amlwg. Ni chynhaliwyd Etholiad am gyfnod o ddeg blynedd a bellach yr oedd un o ryfeloedd mwyaf gwaedlyd yr ugeinfed ganrif wedi darfod a phawb oedd wedi bod yn rhan o'r gyflafan am fyd gwell. Ond yn 2017 fe ddywed Theresa May mae Bregsit yw'r gwir reswm am yr etholiad a gynhelir ar 8 Mehefin. Y mae pleidiau gwleidyddol oll yn cytuno. Er fod Jeremy Corbyn yn cael hi'n anodd i ganolbwyntio ar Bregsit, y mae ganddo lefarydd ardderchog yn Syr Keir Starmer, Aelod Seneddol yn un o seddau drws nesaf iddo yng Ngogledd Islington. Yno mae Corbyn yn Aelod Seneddol ers blynyddoedd. Bu yn lais annibynnol, anodd ei drin yn San Steffan, ac yn wrthryfelwr wrth reddf, a bellach y mae yn sefyll am yr anrhydedd o fod yn Brif Weinidog Prydain.

Y mae Mrs May yn benderfynol o gyflawni tri pheth. Yn gyntaf gwireddu proffwydoliaethau y pôl piniwn sydd yn rhoddi rhwyddineb a chodiad calon iddi hi a'r Blaid Geidwadol fel unig arweinydd Bregsit.

Yn ail nid oes gobaith gan Lafur, ac mewn gwirionedd dyna yw'r gwir. Cadarnleoedd y Blaid Lafur yn nyddiau Wilson, Callaghan, Kinnock a Blair oedd yr Alban a Chymru. Oddi ar Etholiad 2015 y mae'r Cenedlaetholwyr, SNP, wedi dileu y pleidiau i gyd o'r Alban, ac yn arbennig Llafur. Yn 2010 yr oedd gan Lafur ddeugain o seddau yno, ond erbyn heddiw dim ond un. A'r darogan ar ôl Mehefin 2017 dim un. Gall y Ceidwadwyr ennill rywle rhwng 4 a 8 o seddau yn ôl. Ond ciliodd gogoniant Llafur o Sgotland. Yng Nghymru proffwydir y bydd y Ceidwadwyr yn ennill deg o seddau y Blaid Lafur, seddau fel Delyn yn Sir y Fflint, a Wrecsam, dwy sedd yng Nghaerdydd a dwy sedd Casnewydd. Unig obaith Llafur ydyw yn Lloegr ac yn y wlad honno ar wahan i Lerpwl a Manceinion a dinasoedd tebyg y mae hi mewn enbydrwydd hyd yn oed mewn trefydd diwydiannol fel Bolton a Hartlepool.

Yn drydydd, ni fwriada Mrs May sôn am bolisiau na bwriadau, gan ei bod hi yn gwybod ei bod hi wedi ei bendithio a hyder dibendraw a digon o emosiwn, yn fwy felly na'i gwrthwynebwyr. Nid oes gobaith gan Tim Farron i gael y gair olaf er bod ganddo lawer o rinwedau, ffydd gref fel Cristion, er iddo orfod sylweddoli na chaiff ryddid i fynegi ei ffydd heb ateb cwestiynau go anodd iddo ef fel unigolyn. Y mae ganddo obaith i ychwanegu cryn dipyn o seddau, o leiaf deg ar hugain gan ei wneud ef yn y senedd nesaf (2017 hyd 2022) yn lais pwysig fel beirniad llym o Bregsit caled.

Y mae UKIP mewn cryn drybini a'i harweinydd Paul Nuttall yn bell ar ei hôl hi. Mae'n debyg mae'r unig arweinydd i gystadlu a Theresa May ydyw arweinydd SNP, Nicola Sturgeon ond nid yw hi yn ymladd ar draws y Deyrnas Unedig. Y mae Leanne Wood wedi bod yn gall i beidio sefyll yn y Rhondda a chanolbwyntio ar ei chyfrifoldebau fel arweinydd plaid. Cafodd gryn sylw wrth lawnsio ymgyrch Plaid Cymru ym Mangor ac y mae dewis Ieuan Wyn Jones i ymladd Môn yn golygu na all Albert Owen obeithio cadw'r sedd i Lafur. Ond bu yn Aelod Seneddol cydwybodol ers un mlynedd ar hugain dros etholaeth Môn a diolchir iddo am ei gyfraniad ar *Pawb a'i Farn*. Siom fydd iddo golli ond anodd fydd cadw sedd yn erbyn gwleidyddol mor brofiadol a Ieuan Wyn Jones, a gyda llai na 250 o fwyafrif. Daeth Ieuan Wyn Jones i'r penderfyniad na all neb arall ennill Môn i Blaid Cymru ond ef ei hun! Ond fe wyr Mrs Theresa May y gall hi ennill yn hawdd dros Llafur, y Rhyddfrydwyr Democrataidd a UKIP, a hynny neb unrhyw drafferth. Ac y mae hi'n gwybod mae'r unig beth sydd yn ansicr hyd nos Iau a bore Gwener, 8 a 9 Mehefin yw'r mwyafrif. Fe enilla ddeg sedd yng Nghymru, chwech yn yr Alban a wyth deg yn Lloegr yn rhoddi iddi gyfanswm ychwanegol o 96 o seddau heb y mwyafrif presennol o 17, sydd yn rhoddi hi hawl i fod yn y sedd flaen am bum mlynedd arall!

Y mae Jeremy Corbyn yn ymgyrchwr cydwybodol, ond nid yw yn llwyddo i gael y dyrfa fawr i wrando arno bellach a chaiff ei feirniadu yn llym gan bobl sydd yn gwybod dim amdano ond sydd wedi arfer pleidleisio Llafur. Hwy sydd yn mynd i aros adref neu bleidleisio i Mrs May sydd yn hynod o boblogaidd am ei bod hi yn llym ei thafod ac yn barod i fychanu ei gwrthwynebwyr. Hyhi a chaiff ei choroni ar 9 Mehefin ond y cwestiwn mawr yw, beth fydd ei mwyafrif, ac a lwydda hi a'i phlaid i gael gwared o Alex Robertson, arweinydd y SNP yn y Senedd, ac AS Moray. Y mae ef yn ddraenen yn ei hystlys a dymuna hi ei weld ef yn cadw draw o San Steffan. Amser a ddengys ond gellir ei llongyfarch hi am ei llwyddiant o leiaf fis cyn dydd y pleidleisio!!

## CYSTADLEUAETH Y LIMRIG


Ni chawsom gystadleuaeth ar y Limrig ers peth amser a dyma'r dasg a osoder i'r prydyddion a'r beirdd o bob gradd.

*Aeth glaslanc o Gymru i Lerpwl,*
*A'i Saesneg yn dipyn o drwbwl;*
*Ond cyn pen dau fis*
*Trodd yn Sais iff i'w plîs!*
*..................................................*

Gobeithiwn y cawn gystadleuaeth werth chweil a digon o amrywiaeth oddi wrth yr ymgeiswyr.
Anfoner i'r Golygydd yn 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW neu dbenrees@gmail.com erbyn y dyddiau cau nesaf *Yr Angor.*

## CORNEL Y TRYSORYDD

### Mehefin 2017




| | |
|---|---|
| Mr Elwyn Jones, Nant Peris | £20.00 |
| Rhodd Capel Seion, Penbedw | £50.00 |
| Mr a Mrs E.W. Jones, Childwall | £12.00 |
| Mrs Sian Barker, Allerton | £11.00 |
| Mrs Enid Jones, West Derby | £11.00 |
| Dr Rhys Davies, Efailnewydd | £11.00 |
| Miss Ann Roberts, Childwall | £21.00 |
| **Cyfanswm** | **£136.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Ysgrif Coffa*

# Yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies (1923-2017)

Cynwynaswr di-ail i'r Gymraeg, arbenigwr ar ddatganoli, a gwleidydd o ddifrif calon oedd Gwilym. Ganwyd ef ar 8 Rhagfyr 1923 nid yng Nghymru ond yng Ngroesoswallt i William a Mary Matilda Davies. Symudodd ei rieni i gadw gwesty yn y dref ar y ffin yn 1921 ond dychwelwyd i fro ei mebyd yn Llanegryn pan oedd y mab bychan yn bump mlwydd oed. Yno fel Gwilym Pen-y-banc y cafodd y rhyddid i grwydro ffriddoedd, dod i adnabod y Cymry oedd ym mhob tyddyn a thŷ, a derbyn addysg yn yr ysgol leol cyn mynd i Ysgol Tywyn lle y daeth wyneb yn wyneb â Saesneg. Dim ond un athro Richard Jones oedd yn barod i siarad Cymraeg ag ef, a hwnnw â'i cynghorodd i ystyried astudio'r Gyfraith yn Aberystwyth. Daeth y Rhyfel ar ei draws a bu yn y Llynges o 1942 i 1946 yn hwylio o Lerpwl i Ynys yr Iâ.



Yn Aberystwyth daeth yn ffigur pwysig a llwyddodd i ennill gradd yn y Gyfraith a pharatoi traethawd ar gyfer gradd uwch ar rwymedigaethau cytundebol yng nghyfraith Cymru. Daeth yn arweinydd Plaid Cymru yn y Coleg ac ar dân o bentref i bentref yn y Sir yn cenhadu. Trefnwyd y cyfarfodydd yn festrioedd capeli gan John Legona a Gwilym oedd y siaradwr o le i le. Ciciodd yn erbyn y tresi a ffurfio grŵp i ddechrau, a dyfodd yn Fudiad Gweriniaethol Sosialaidd Cymru. Ef oedd y sylfaenydd. Achosodd y grŵp gryn gynnwrf gyda'i syniadau adain chwith, heb barch i'r Frenhiniaeth nag i'r Sefydliad. Ffieiddiai arweinwyr y Blaid y syniadaeth a thaflwyd Gwilym a'i gefnogwyr allan o'r Blaid yn 1949.

Blinodd ar ôl rhai blynyddoedd gyda'r Gweriniaethwyr, ac ymunodd â'r Blaid Lafur a dod yn un o'r deallusion pennaf. Ef a minnau a gychwynodd Cyhoeddiadau Modern Cymreig Cyf., gan fod teulu ei briod, Llinos Evans, yn aelodau yn yr eglwys y gwasanaethwn ynddi. Parhawyd y cyfeillgarwch ar hyd y blynyddoedd ac edmygwn ei safiad dros yr Iaith Gymraeg a'r cynllunio medrus a wnaeth i gael y Cynulliad. Un o wŷr mawr Cymru ydoedd.

Bu colli ei briod yn 2010 yn ergyd enfawr ond bu'n ffodus yn y merched, Catrin, Ann ac Elin. Rhoddodd Catrin a Andrew Waugh, QC, gartref clyd iddo yn Dulwich a chofiaf fynd i'w weld yno. Gwilym a'i galon garedig a'i feddwl llymach na chyllell, a'i egni yn ddiarhebol dros y 'pethe'. Daeth i ben deithio byd yng nghwmni ei anwyliaid ar 28 Mawrth 2017, a'i osod i orffwys ym mynwent Llanegryn gyda'i briod a'i hynafiaid ar 8 Ebrill.

*D. Ben Rees*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Gyda thristwch mawr y daeth y newydd i'n plith am farwolaeth Liz, chwaer hynaf Mri Goronwy Humphreys a Humphrey Humphreys. Roedd wedi ymgartrefu yn Nottingham ers blynyddoedd. Anfonwn ein dymuniadau dwys i'r ddau frawd a'u teuluoedd.

Llongyfarchgiadau gwresog i'n blaenor a thrysorydd yr eglwys, Miss Iris Hughes-Jones ar gyflawni deugain mlynedd fel blaenor. Mae wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod y Gymdeithasfa yn y Gogledd yng Ngharno, Powys i gydnabod ei hir wasanaeth i'r Cyfundeb.

Ar bnawn Sul y Pasg cawsom gwmni a gwasanaeth y Parch Dr. Huw John Hughes, Porthaethwy. Roedd pymtheg mlynedd wedi mynd heibio er iddo wasanaethu Capel Salem. Roedd hyn cyn yr uniad! Gad nad oes ganddo Sul i'w gynnig yn 2018, a'i fod yn rhoddi'r gorau i deithio'r wlad i bregethu, dyma'r tro olaf i ni gael y fraint o'i wasanaeth, a diolchwn o galon am ei ymweliadau â ni ym Mhenbedw.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Ar ail Sul o Ebrill daeth cynulleidfa dda ynghyd i dderbyn y Cymun Sanctaidd a chawsom wasanaeth ein Gweinidog, Dr. D. Ben Rees. Gweithred hardd oedd i'r eglwys drefnu cyflwyno blodau'r Pasg i aelodau o'n heglwys sydd yn methu dilyn yr oedfaon a bodlonodd rhai o'n haelodau i'w gwasgaru ymhlith yr anwyliaid hyn. Gwelwyd colli Mrs Marian Lyons o'n plith ond fe dderbynia ofal arbennig gan ei phriod a'r mab a'r ddwy ferch a'u teuluoedd. Gwasanaethwyd ni ar 23 Ebrill gan Ms Rachel Gooding, ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn fel cynulleidfa i'w dyfodiad atom. Gallwn oll ddweud fel capel:

*Yng nghwmni teulu'r ffydd*
*Ymbiliwn yn gytûn*
*Am inni gael yr uchel fraint –*
*Dy gwmni di dy hun.*

Llongyfarchwn o glywed fod Sasiwn y Gogledd wedi cydnabod gwasanaeth 40 mlynedd Miss Iris Hughes-Jones, Wallasey fel blaenor yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Edrychwn ymlaen i'r gwasanaeth ar fore Sul, 22 Hydref 2017 ym Methania gan bod ganddi neges gysurlawn bob amser.



*J. Elwyn Hughes a Phyllis O'Neill*

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

"Bro Caradog Prichard trwy luniau" oedd testun ein gwestai Dr J. Elwyn Hughes, ar nos Lun Ebrill 10fed. Llywydd y noson oedd Mrs Phyllis O'Neill a phleser arbennig iddi oedd cael croesawu hen gyfail bro ac ysgol.

Brodor o Ddyffryn Ogwen ydi'r Dr John Elwyn Hughes er ei fod bellach yn byw ym Methel, Caernarfon. Mae'n briod â Deilwen ac yn dad i bedwar, tri mab ac un ferch, Manon Elwyn.

Cafodd ei addysg yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, ac oddiyno aeth i'r Brifysgol ym Mangor a graddio mewn Astudiaethau Celtaidd yna ennill ei M.A. mewn Addysg.

Yn syth o'r Brifysgol dychwelodd i'w hen ysgol fel Pennaeth yr Adran Gymraeg ac, mewn amser, daeth yn brifathro yr ysgol.

Yn 1985 derbyniodd wahoddiad i olygu cyfrol cyfansoddiadau a beirniadaethau yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Rhyl ac yna cario ymlaen, pob yn ail flwyddyn hyd at 1999 ac yna flynyddol hyd 2016 – gwaith dau fis o bob Haf am dros ugain mlynedd.

Yn 1998 penodwyd ef yn gyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Iaith. Mae wedi golygu llawer iawn o lyfrau a wedi cyhoeddi yn niferus – llawer iawn o'i lyfrau yn ymwneud a'i ardal ei hun, sef Dyffryn Ogwen.

Yn 1993 anrhyddeddwyd ef â'r wisg wen yn Eisteddfod Llanelwedd am ei gyfraniad i'r Gymraeg, ac yn 2009 dyfarnwyd iddo Ddoethuriaeth gan Brifysgol Bangor am ei ddwy gyfrol "Bod Byw Caradog Prichard" a "Byd go iawn 'Un Nos Ola Leuad'".

Drwy luniau o'r ugeinfed ganrif, aeth Dr Hughes a ni ar daith i'w hoff ardal, Dyffryn Ogwen. Yno hefyd oedd cefndir Caradog Prichard ac oddi yno cafodd ysbrydoliaeth i'w gyfrolau. Trawsnewidiwyd y dyffryn gwyrdd, coediog pan sylweddolodd Richard Pennant yn 1760, y fath gyfoeth oedd yng nghudd yng nghreigiau'r Carneddau. Etifeddodd ystad y Penrhyn, wedi i'r teulu wneud eu ffortiwn drwy waith siwgwr yn Jamaica ac agorodd y chwarel yn 1767. Gwnaed ef yn Arglwydd Penrhyn tua'r un adeg ac mae ei ddisgynyddion yn dal i fyw er i'r castell a'r chwarel fynd yn eiddo i eraill. Drwy'r lluniau hynafol a'r disgrifiadau byw a manwl, gwelsom galedi a pherygl gwaith y chwarelwyr, clywsom y ffrwydriadau a sgydwodd yr ardal dydd ar ôl dydd, teimlwn gormes a difaterwch y meistri yn amser y streic fawr, ac edmygwn diwylliant a hiwmor y cabannau. Er i'r rhan fwyaf ohonom weld a rhyfeddu at faint ac ehangder y chwareli enfawr, ychydig a wyddom am beryglon y gwaith, crefft y gweithwyr a'r oriau a blynyddoedd hir o waith a rhoisant – rhai am dros saith deg o flynyddoedd. O dan y tomennydd sydd i'w gweld yn y dyffryn hyd heddiw mae'r treflannau, capeli, ac eglwysi a gododd y chwarelwyr er mwyn cartrefu eu teuluoedd. Difyr oedd gweld lluniau o hen gymeriadau lleol a bortreadwyd yng ngwaith Caradog Prichard.

Diolchodd Phyllis i'w chyfaill am noson arbennig o dda ym mhob ystyr. Pleser oedd gwrando ar un mor wybodus a brwydfrydig am ei bwnc ac mor gartrefol a chyfeillgar gyda'i wrandawyr.

Daeth tymor arall i ben yn gyflym iawn, a dyma ni yn y cyfarfod blynyddol ar 24 Ebrill o dan lywyddiaeth Mrs Mair Rees Jones. Diolchodd hi i bawb am gydweithrediad a ffyddlondeb at y drefn newydd o gael llywydd y noson i bob cyfarfod.

Mae'r drefn newydd wedi bod yn llwyddianus, diolch i barodrwydd nifer o gyn-lwyddion.

Diolchodd Iola, ein hysgrifennydd i Mair a Phyllis a'r pwyllgor am gefnogaeth. Wedi deg mlynedd mae Phyllis yn ymddeol o waith y Trysorydd ac etholwyd Arwel Evans i gymeryd drosodd. Cawsom dymor difyr ac amrywiol, a diolch eto i gyfeillion o'r glannau ac o Gymru am ddod atom.

Etholwyd Mrs Alice Jones, Mr Tom Thomas a Mrs Eirwen Sargent i'r pwyllgor, gyda diolch i'r ddau sydd wedi cyflawni tair blynedd - Trefor a Terry, ac Arwel sydd yn newid swydd.

Cofiwch am y bore coffi, ar Gorffennaf 1af.



*Mrs Mair Rees Jones, ein Llywydd Anrhydeddus*

**CYSTADLEUAETH MIS MAI**

**Yr Atebion**

1. Mentra Gwen
2. Tra bo dau
3. Ar hyd y nos
4. Y Fwyalchen
5. I Blas Gogerddan

***Buddugol:***
Mrs Rhiannon Liddell, Wavertree, Lerpwl

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Roedd hi'n oedfa arbennig ar y Sul cyntaf o'r mis o dan arweiniad ein gweinidog Y Parchedig Ddr. D. Ben Rees pryd y gweinyddiwyd y sacrament i Swper yr Arglwydd. Yna yn dilyn yn y ganolfan, bore coffi i godi arian tuag at ymdrech arbennig Cymorth Cristnogol 'Corwynt Cariad' at yr angen yn y Phillipines.

Dr. Pat Williams yn ôl ei harfer a'n harweiniodd i fyfyrio drwy ddigwyddiadau yr Wythnos Sanctaidd gan gychwyn gyda gweddi o waith ein gweinidog o'i lyfr Defosiwn y Pasg.

Drwy gyfrwng darluniadau o'r Oriel Genedlaethol yn Llundain a'i gwaith ymchwil manwl bu'n abl i gyfleu yr ing a'r boen arweiniodd at y Groeshoelio ar ddydd Gwener y Groglith ac yna ar Sul y Pasg y fuddugoliaeth a goruchafiaeth y bedd gwag.

Ychwanegwyd at naws yr addoliad gan Gantorion Bethel o dan arweiniad Mr. R. Ifor Griffith a Margaret Anwyl, ac yn arbennig eu datganiad eneiniedig o'r emyn "Mi dafla'i maich oddi ar fy ngwar".

Diddorol iawn oedd hanes yr hen eglwys Geltaidd Sant Deilo o'r bymthegfed ganrif a dynnwyd i lawr garreg wrth garreg a'i gosod yn San Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru, a darganfod wrth wneud hynny, tu ôl i'r plastar gwyngalchog furluniau o hanes y Pasg gan gynnwys yr orymdaith i Jeriwsalem, Y Swper Olaf, y Croeshoelio, yr Atgyfodiad a'r Esgyniad i'r nefoedd. Cymerwyd ugain mlynedd i gwblhau y gwaith yn ychwanegol at hyn oll dangoswyd lluniau mwy cyfoes, un ohonynt o Iesu Grist yn golchi traed y disgyblion ar ffurf 'Coptic Art'. Ni wyddir enw'r awdur ond gallodd greu y syndod rhyfedd hwnnw ar yr wynebau.

Un modern arall oedd Crist yn yr ardd gan artist stryd.

Diolch Dr. Pat am noson a erys yn y cof yn hir iawn, a'n paratoi a'n hysbrydoli at ^Wyl y Pasg.

Ar derfyn y noson cawsom wledd o ddanteithion y Pasg gan Lilian a Gwenfil a chwmni'r dysgwyr Cymraeg wrth ymuno â ni. Diolchwyd am y cyfan gan ein gweinidog. Hon oedd noson olaf o'r Gymdeithas Lenyddol am flwyddyn arall.

Braf oedd cael cwmni Mrs Joyce Lewington yn yr oedfa fore Sul y Pasg a hynny ar ôl ei thriniaeth ar ei phenglin.

Cydymdeimlwn â Mr. Ifor Griffith yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer yn ddisymwth yn Nhrawsfynydd, a hefyd ei frawd yng nghyfraith o fewn ychydig ddyddiau.

Anfonwn ein cofion at yr holl aelodau sydd yn methu a mynychu'r oedfaon fel cynt, a chan ddymuno dyddiau dedwydd i chi ym misoedd yr haf.



*Pat Williams yn darlithio*




Tel: 0161 - 445 9366
eandevevans@aol.com
13 Harefield Drive
Didsbury
Manchester
M20 2SZ

*Dyddiad: 21 Ebrill 2017*

## GADAEL YR UE – NID GADAEL EWROP

‘Rwyf innau yn cofio y Refferendum yn 1975 pan benderfynodd pobl y DU aros o fewn y Gymuned Economaidd Ewrop. Pleidleisiais i o blaid yr adeg hynny ond dros y blynyddoedd mae’r sefyllfa wedi newid yn wir gyda dyfodiad yr Undeb Ewropeaidd. Dyma gymdeithas sydd (gyda chyd-weithrediad ein Llywodraethau – Toriaidd a Llafur) wedi cymeryd mwy a mwy o’n gallu ni i reoli’n hunain a rhoi yr hawl dan glo ym miwrocratiaeth Brwsel. Yn nhyb ein gwleidyddwyr yr oedd y manteision o fod yn perthyn i’r UE mor amlwg fel nad oedd gwerth dadlau dros y peth.

Chawsom “ni” ddim llawer o ddewis – Maastricht 1992? – tic; Lisbon 2007? – tic. Ac os oedd gwlad yn cael cyfle i bleidleisio ac yn bod mor ffôl a gwneud y dewis anghywir, gwyddom beth oedd y canlyniad – pleidleisiwch eto! Dyma’r clwb sydd a’i fryd ar greu un wladwriaeth, un senedd, un pwyllgor gwaith, un uchaf lys, un arian, un modd o drethu, un fyddin a mwy ar gyfer Ewrop gyfan heb ofyn caniatad yr aelodau. Dyma glwb sydd yn honni bod yn ddemocrataidd ond yn rhoi y gallu i weithredu bron yn llwyr yn nwylo y Comisiwn sydd yn bell o gyrraedd y ‘dyn yn y stryd’. Dyma’r clwb sydd yn benderfynol o gosbi unrhyw wlad sydd yn deisyfu gadael. Ai dyma’r clwb i ni?

Gofid am dri pheth? Os yw’r Alban yn mynnu gadael y DU, nid ar Brexit mae’r bai. Yr SNP sydd yn benderfynol o gael annibyniaeth i’r Alban, a bodolaeth yr UE sydd yn gallu iddynt freuddwydio fod bywyd gyda Brwsel yn well nag aros yn y DU. Credaf fod y rhan fwyaf o boblogaeth yr Alban yn fwy hapus o fod yn y DU nag yn yr UE, ond gadewch iddynt ddewis, dyna beth yw rhyddid. Safon byw? Pwy a ŵyr a fyddwn yn well allan yn faterol oddi mewn ynteu allan o'r UE. Bydd gadael yr UE yn creu problemau mae’n siwr ond ni fyddai dyfodol oddi mewn i’r UE yn fêl i gyd ychwaith.

Edrychwn ar ganlyniadau yr *euro* a graddfa llog sengl ar wledydd yr UE – bendith i’r Almaen a melltith i wlad Groeg. Fe aeth Iwerddon, Portiwgal a Sbaen i drafferth a bu bron i’r Eidal ddisgyn allan ond mae arweinyddion yr UE yn benderfynol o amddiffyn yr *euro*, ni allent gyfaddef fod gwall yn y cynllun, a beth yw’r ateb? Mwy o rym i Frwsel? Gan ein bod ni wedi cadw y bunt (diolch i Gordon Brown) yr ydym allan o’r frwydr yna ond ni allwn osgoi y canlyniadau o benderfyniadau yn cael eu gwneud yn Frankfurt. Gwell fod oddi allan yn llwyr na bod hanner i mewn fel mae pethau ar hyn o bryd. A beth am yr arian sy’n dod o Frwsel i ardaloedd difreintiedig Cymru – o ble cafodd Brwsel yr arian yn y lle cyntaf?

Os nad ydych yn fodlon hefo’r llywodraeth yng Nghaerdydd neu San Steffan, daw cyfle yn ei dro ichwi eu troi allan. Ond fedrwch chi wneud dim hefo’r uchel offeiriaid ym Mrwsel. Maent tu hwnt i’n cyrraedd ni, mewn byd cyfforddus eu hunain, ac yn symud y syrcas yn ôl a blaen rhwng Brwsel a Strasburg sawl gwaith y flwyddyn heb gyfri’r gost. Dyfodol yr ifanc? Ie, mae hwn yn bwysig, ac y mae’n iawn i ni gael clywed eu llais, ond yr anrheg fwyaf y gallwn ni ei roi iddynt fydd yr hawl i fod yn feistr ar eu dyfodol eu hunain, ac nid yn gaeth i ryw gyfundrefn uwch-wladol.

A beth am ymateb gwleidyddion yr UE i Brexit? Pengaled yn wir ac yn amlwg eisiau ein cosbi am fod mor wirion – gwneud esiampl ohonom er mwyn dysgu gwers i eraill yn y clwb oedd efallai yn meddwl gwneud yr un peth. Dyna’r math o Undeb y byddaf yn falch o’i gadael. Fe ddechreuodd yr UE gyda’r amcanion gorau. Ym 1975 yr oedd y Farchnad Gyffredin yn gaddo heddwch ar gyfandir oedd wedi ei rannu. Ond ers hynny mae’r cynllun wedi tyfu tu hwnt – yn rhy fawr ac yn rhy gyflym – ac yn waeth na dim, heb gydsyniad y bobl.

Cyn y Refferendwm buaswn i wedi bod o blaid aros oddi mewn “Undeb Ewropeaidd Ddiwygiedig” petae rhywun wedi cynnig newidiadau sylweddol i’r sefyllfa oedd yn bod. Pan aeth David Cameron o gwmpas prif ddinasoedd Ewrop i geisio newidiadau (a ‘doedd o ddim yn gofyn am lawer), daeth yn ôl hefo fawr ddim. Yn amlwg, ‘doedd yr UE ddim am ildio ac yn dal at y nod o undeb fwyfwy clos. Amser felly i ni wahanu, nid i adael Ewrop, ond yn sicr i adael yr UE.

**Elwyn Evans**

---

*Gateacre,*
*Lerpwl*

## CYFRIOLDEB AM ADAEL EWROP

Rhaid dweud fy mod yn cytuno – yma a thraw – am yr hyn fynegodd ein golygydd parchus ynglŷn â’n dyfodol ar ôl Brexit yn *Yr Angor.*

Yn gyntaf oll, a mwy na dim, rhaid cofio yr hyn a benderfynwyd yn y refferendwm. Rhaid felly dilyn yr ymateb hwnnw, ac i roddi cyfle a chefnogaeth heb fod yn amheus a negyddol yn ein disgwyliadau.

Rwyf am gymharu y sefyllfa heddiw i’r flwyddyn 1945, pan benodwyd Clement Attlee yn Brif Weinidog – “Yr oen mewn dillad oen” fel y cyfeiriodd Winston Churchill tuag ato. Beth a ddigwyddodd wedi hyn, ac yn syndod aruthrol i filoedd, bu gwyrth gwleidyddol; hanesyddion oesau wedyn yn cytuno a dweud ei fod gyda’r gorau o’r amser hwnnw hyd heddiw. Y neges? Rhoddi cyfle o dro i gi dan draed’.

Heb dynnu sylw ato yn ffafriol neu beidio – ac nid oes yr un cymhariaeth yma â Clement Attlee – rhaid cofio bod Nigel Farage yn aelod grymus o’r llywodraeth yn Brussels, a hyn dros lawer blwyddyn bellach. Mae wedi cyhoeddi yn ddiflino ar y gwastraff sydd yn mynd yn ei flaen, a’r llu o ddeddfau a rheolau, amhenodol weithiau – fel ffurf ffrwyth y banana a thomato! Bu hanes am un aelod blaenllaw yn ymffrostio ei bod yn hedeg o’r cyfandir bob penwythnos i Loegr i drin ei gwallt, heb dalu yr un geiniog goch am y daith.

Cyn y refferendwm, ysgrifenais i’r *Angor* i grybwyll yn syml nad oeddwn yn credu bod angen i gynnal un. Yn fy marn i ar y pryd, ac hyd heddiw nid oeddwn yn teimlo bod y werin gyffredinol, a mi yn eu mysg – yn ddigon dysgedig i adolygu y manylion penbleth a dyrys. Yn enwedig pan oedd arbenigwyr eu hun yn anfodlon yn eu siarad.

Y mae un ochr o’r ddadl yn aros. Y pwyslais mwyaf i wneud a’r Uniad yw yr heddwch sy’n teyrnasu dros y cyfandir. Hwn oedd yr unig amod imi yn 1973 i uno ag eraill i sicrhau y dyfodol heb ryfela. Hir y parha.

*Yn gywir iawn,*
**Ken Williams**

**CRONFA ARBENNIG GŴYL HEDD WYN 2017**
**Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi**
**Cronfa Gŵyl i gofio**

**Eisteddfod y Gadair Ddu Penbedw a champ y bardd filwr a gollodd ei fywyd yn Pilkem Ridge (31-7-1917) sef Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) o Drawsfynydd a enillodd y Gadair, ac yr ydym am fewnforio carreg o'r India bell i'w goffau ar waelod y Gofeb a gaiff ei lanhau.**
**Cynhelir yr Ŵyl ar Sadwrn, 9 Medi a Sul, 10 Medi 2017 ym Mhenbedw.**

**Rhestr 6 (hyd 30 Ebrill 2017)**

–Ymateb da eto a diolch o galon i'r canlynol:

1) Menna ac Arthur Evans, Parc Hendy, Wyddgrug, Sir y Fflint ....£50
2) Mrs Enfys Hughes, Brynteg, Môn..............................................£30
3) Geraint a Marian Lloyd Jones, Rhosllanerchrugog....................£50
4) Mrs Kitty B. Jones, Rock Ferry, Penbedw .................................£20
5) Mrs Megan Vaughan, Trefebin, (Bebington), Cilgwri ...............£25
6) Geraint ap Meirion Williams, Forest Road, Claughton..............£50
7) Mrs Eirwen Sargent, Cymdeithas Gymraeg Penbedw ...............£40
8) Glyn a Megan Davies, Rhuthun, Dyffryn Clwyd.......................£30

**Cyfanswm ....................................£295.00**

**Rhestr Haelioni**
**Rhestr 1 (hyd 31 Hydref 2016) ...................................£715.00**
**Rhestr 2 (hyd 31 Rhagfyr 2016) .................................£540.00**
**Rhestr 3 (hyd 31 Ionawr 2017) ...................................£443.00**
**Rhestr 4 (hyd 28 Chwefror 2017) ...............................£850.00**
**Rhestr 5 (hyd 31 Mawrth 2017)..............................£1,995.00**
**Rhestr 6 (hyd 30 Ebrill 2017)......................................£295.00**
**Cyfanswm ............................................£4,738.00**

Cawsom fis calonogol eto, ac yr ydym yn sicr o gyrraedd y nod er fod y costau yn cynyddu ac yn uchel. Mae arnom angen o leiaf dwy fil o bunnoedd arall y misoedd nesaf o leiaf cyn Medi 2017. Yr ydym £760 yn fyr i fedru talu am lanhau'r gofeb a rhoddi sylw i gamp Hedd Wyn.
**Ceir y seithfed rhestr yn rhifyn nesaf o'r *Angor* a dylid anfon y cyfraniadau i'r Cadeirydd: Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl, Liverpool L18 6HW pan mae'n gyfleus. Y sieciau i'w llenwi i 'Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi' neu 'Merseyside Welsh Heritage Society'.**
**Diolch am eich caredigrwydd, cydweithrediad a'ch cefnogaeth calonogol darllenwyr Yr Angor.**

## GWNEUD GEIRIAU

**A R CH**
**C E G**
**F Y DD**

**O'r llythrennau yn y bocs uchod, gwnewch allan eiriau yn cynnwys pedair llythyren neu mwy. Mae yma o leiaf 25, ac mae un gair yn cynnwys y naw – hint fechan CWAC.**
**Y llythrennau i'w defnyddio ond un waith**

# Gŵyl y Gadair Ddu /
## The Black Chair Festival
## Medi 9-10, 2017

Mae'r Gadair Ddu yn enwog oddiar yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd ym mharc Penbedw yn Medi 1917. Bwriadwn gynnal Gŵyl i gofio'r cyfan-- presenoldeb y Prif Weinidiog, David Lloyd George, ar y llwyfan gyda'r beirdd, y Gadair Ddu a gyflwynwyd yn rhodd haelionus gan adeiladydd lleol, David Evans, ac a gerfiwyd yn gelfydd gan ffoadur o Wlad Belg oedd yn llochesu yn Mhenbedw, Eugeen Vanfleteren o Mechelen, a'r bardd o fferm Yr Ysgwrn yn Nhrawsfynydd, Preifat Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) o'r Royal Welsh Fusiliers a gollodd ei fywyd ym mrwydr Pilkem Ridge ar 31-7-1917 ond ei awdl ef a'r ffugenw 'Fleur-de-Lis' a ddaeth yn gyntaf yn ôl y tri beirniad.

Golyga hyn ein bod eleni yn cynnig Cadair hardd i fardd o Gymro am lunio Cerdd neu gerddi (dim mwy na 100 llinell) ar y testun *Hedd Wyn*. Bydd y Gadair yn rhoddedig gan Gymdeithas Hedd Wyn, Flanders, a daw rhai o'r gymdeithas honno i'r Ŵyl. Cyflwynir hefyd dwy Goron rhoddedig gan Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi a gan y Parchedig Dr D,Ben Rees am farddoniaeth ar *Yr Arwr* (dim mwy na 50 llinell) i bobl ifanc rhwng 11 a 19 oed. Bydd Archdderwydd Cymru a beirdd eraill yn gofalu ar ôl y seremoniau hyn.

Traddodir darlith ar Hedd Wyn yn Gymraeg gan yr Athro Peredur Lynch, Bangor, o dan nawdd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion gyda'r Athro Emeritws Prys Morgan yn cadeirio. Bydd cyfieithiad ar gael i bawb a ddymuna hynny. Traddodir darlith yn Saesneg gan y darlledwr Dr Huw Edwards, Llundain ar David Lloyd George. Bydd yr Athro D.Ben Rees yn traddodi darlith yn Gymraeg ar Cymry Penbedw a Eisteddfod y Gadair Ddu a'r Athro Emeritws Robert Lee, yn Saesneg, ar ffoaduriaid o Wlad Belg gan gynnwys crewr y Gadair.

Cofir am yr holl fechgyn o Gymru a'r Glannau a gollodd ei bywyd yn ystod y penwythnos. Yn seremoni dadorchuddio y Garreg yn y Parc i gofio yr Eisteddfod a phlac i Hedd Wyn cawn gwmni arweinwyr lleol a Phrif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, AC, a phob un yn dweud gair pwrpasol, yn ogystal a Pharti Meibion Bara Brith yn canu englynion bythgofiadwy R.Williams Parry. Yn yr hwyr ceir dau Gyngerdd. Y cyntaf yng ngofal Côr Ieuenctid Môn o dan arweiniad Mari Lloyd Pritchard, a'r ail gyngerdd o dan ofal Côr Rygbi Gogledd Cymru o dan arweiniad Geraint Roberts. Yr unawdwyr fydd Dylan Cernyw (y Delyn) a'r unawdydd Huw Ynyr (Tenor) o Rhydymain.



Y diwrnod canlynol, sef Sul 10 Medi, yng nghapel Seion, Laird Street, Penbedw, cynhelir, am 10-45, Oedfa o dan ofal yr Athro D. Ben Rees a gweinidogion eraill a Chôr Rygbi Gogledd Cymru. Paratoir lluniaeth am bris rhesymol. Yna am 2.00 o'r gloch y Gymanfa Ganu a chenir rhai emynau gan Gôr Rygbi Gogledd Cymru a Chôr Orpheus Rhosllanerchrugog gyda'r arweinydd Alwyn Humphreys, Caerdydd. Dyma Ŵyl i'w chofio ac os ydych am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda *dbenrees@gmail.com* neu *arthurthomas1@talktalk.net*

*Myfyrdod*

# GOBAITH

Wrth chwilota hen gwpwrdd acw fe ddeuthum ar draws hen adroddiad Capel Calfaria, Porth, Rhondda am 1943, hen gapel fy mebyd. Mae wedi cau ers 2009 ond "byth yn annwyl gennyf".

Wrth droi'r tudalen a gweld enwau'r aelodau maent i gyd yn dod o'm blaen yn eu seddau ac a deigryn onest yn fy llygad yr unig beth medraf wneud ydy plygu pen a diolch yn ddiffuant am eu gweddiau a'u gofal drosof. Ychydig iawn ohonynt oedd yn wreiddiol o'r Porth sef "pobol dwad", y mwyafrif wedi dod yn deuluoedd o'r Gogledd a'r Canolbarth i'r pyllau glo am fywoliaeth ac wrth ddod yn chwilio am gymdeithas y Capel a'u Duw ac felly oedd yn union hefo teulu ni. Ffrind mynwesol Mam oedd Jane, Fairview. Daeth Jane o Dangrisiau, 'Stiniog gyda Amos ei gŵr a'i mham Lizzie. Amos yn gweithio ym mhwll y Cymmer ac yn angeuol fe gafodd ei ddal mewn cwymp. Roedd hyn yn drychineb a Jane ond yn 26 oed. Yr unig "compo" gafodd oedd llythyr cydymdeimlad a thunnell o lo.!! Ond bu'r gymuned yn dda wrthi a hel digon o arian ac fe agorodd siop yn rŵm ffrynt y tŷ a gwerthu anghenion glowyr sef – papurau newydd, Baco Amlwch, Franklyn's a Twist, cigarets Woodbine a dipyn o amynedd medda Lizzie. Popeth yn iawn ond mhen ychydig fe aeth y siop ar dân ond syfyrdanwyd pawb pan oedd arwydd mawr tu allan – POPETH WEDI MYND OND GOBAITH – AR AGOR YFORY FEL ARFER – ac yn wir felly y bu. Cefais yr hanes gan Mam ac yr wyf wedi meddwl llawer am arwyddocad arwydd Jane ar hyd y blynyddoedd.

O'r dair rhinwedd Cristnogol credaf mai GOBAITH yw'r brinnaf yn ein bywyd a'n byd. Byddaf yn meddwl ei fod yn angenrheidiol ymddiried mewn rhywbeth, ymddiriedwn ynteu yn y goreu sef yr hyn yw y Duw anfeidrol i ni yng Nghrist lesu. Beth yw ffydd? Ateb personoliaeth gyfan dyn i'r ffaith o bresenoldeb Duw yng Nghrist yn ein bywyd. Mae Gobaith wedyn, greda i, yn golygu y pethau da yn addewid Duw i ni trwy ras yr Ysbryd Glan. Ie, gyfaill, disgwyl yn hyderus, yn amyneddgar a chael yn y diwedd llawenydd. Gobaith medda'r hen Jane wedi ei sylfeini ar addewid Duw. Cofiaf un tro pan yn yr hen bentre i'r adeg pan torrwyd calon y pentre ar adeg traed a'r genau a'r ffermwyr wedi colli'r anifeiliad. Wil John, Bryn Ffynnon wedi colli 200 o "pedigree Friesian herd" a gofynnais iddo beth nesa. Meddai "Wel, dim ond ail ddechrau, ngwas i, a GOBEITHIO ynte?" Mae A. J. Cronin yn dweud yn ei lyfr *'Keys of the Kingdom' - "Hell is the place where finishes hoping"*.

Wrth edrych ar ein byd heddiw onid ydy'n anodd meddwl am Dduw? Mae'r papurau newydd yn llawn o sôn am drychinebau, lladd, rhyfeloedd, ffoaduriaid ac yn dilyn newyn *"Man's inhumanity to Man"* o hyd ac fel mae pethau'n mynd mae'n edrych fel *"twilight of the Universe"*. OND myfyriwch ar yr hanesyn fach yma – Yn un o ddinasoedd Ewrop roedd Eglwys wedi cael ei hanner ddistrywio ac ond yr allor yn sefyll. Roedd hen ŵr a phlentyn tua 7 oed wrth yr allor mewn dillad tlawd yn sefyll. Hawdd oedd gweld fod y plentyn wedi ei pharlysu. Gafaelodd yr hen ŵr yn y plentyn ac yn amyneddgar iawn gwneud iddi penlino wrth yr allor a golau cannwyll a'i rhoddi ar yr allor. Siaradodd y gohebydd ac fe ddywedwyd wrtho: "Y rhyfel – y bomio, dyna beth parlysodd hi a lladd ei rhieni OND rydym yn dod yma bob dydd i ddweud wrth y Duw da nad ydym yn ddig wrtho".

Wyddoch chi, ar ôl darllen yr hanesyn yma meddyliais bod rhywun wedi dweud *"the Human Spirit may be battered and crushed but it is indestructible"*. Roedd rhain wedi colli popeth, yn dlawd ryfeddol OND yn gwrthod digalonni ac yn dal i GREDU. Wrth ddarllen yr hanesyn doedd dim dicter yn fy nghalon ond roeddwn yn llawn tosturi ond yn ddiffuant dros ben mae yna ymwybyddiaeth mawr o gywilydd yn fy enaid. Wrth feddwl am gannwyll y ferch fach yn olau ynghanol y fath difrod teimlaf tra bod golau a miloedd yr un fath a hi – bod GOBAITH i'r holl fyd.

***ELWYN***

# ANRHYDEDDU HYFFORDDWR

Mae Arwel Williams, Roby wedi bod yn hyfforddwr gyda clwb atheltau 'Liverpool Harriers' ers dros pum mlynedd ar hugain ac yn ysgrifennydd y clwb ers wyth mlynedd.

Mae hefyd yn swyddog yn y byd athletau ac roedd yn swyddog technegol yn Llundain 2012 a dwy flynedd wedyn yn y Gemau Cymanwlad yn Glasgow. Mae yn brif swyddog yn gemau athletau y byd yr haf yma eto yn Llundain ac yn bennaeth ar rasus tua allan y stadiwm.

Mae ef yn un o brif drefnyddion rasus dros gwlad (cross country) ym Mhrydain ac y flwyddyn diwethaf fe roedd y dyfarnwr yn ras hanner marathon y Byd yng Nghaerdydd. Mae hefyd yn ddyfarnwr ers tair mlynedd ar ras Marathon Llundain.

Ar ddechrau y mis fe gafodd Arwel anhrydedd fawr wrth gael ei ddewis i fod yn Swyddog Swyddogion Athletau Prydain Fawr mewn cyfarfod blynyddol yn Kenilworth. ('British Athletics Officials Official of the year').

Fe gafodd ei wobr oddi wrth enillwr medal neidio uchel yn Llundain 2012 sef Robbie Grabarz. Wrth gael ei wobr roedd yn glir i bawb weld fod Arwel ddim wedi gwybod ei fod mewn ymgecraeth (contention) ac roedd 'mewn sioc' ar gael ei ddewis.


Fe ddiolchodd i bawb oedd wedi ei hyfforddio dros y blynyddoedd ac hefyd ei deulu, ffrindiau ac hefyd Debbie ei wraig a oedd ar amser adref ei hunan.




***Arwel Williams yn derbyn ei wobr***


# Cyfrol ar Gwm Glofaol

Adolygiad ar gyfrol Vivian Jones,
**A CHILDHOOD
IN A MINING VALLEY**
(Talybont, 2017),
tudalennau 1-208.
Clawr Meddal. Pris £9.99.




Yn ôl y Cyflwyniad gan yr awdur y mae'r gyfrol hon ar y gweill ers chwarter canrif o leiaf. Mae yn mynd yn ôl i'w ddyddiau fel Gweinidog Capel llewyrchus Plymouth yn Minneapolis, eglwys y bu y Parchedig Vivian Jones yn Weinidog arni o 1980 i 1995 pan drodd yn ôl i Gymru ac i ymddeoliad yn yr Hendy. Cyfrol oedd hi felly i Iancis na wyddai ddim byd am Gymru a llai fyth am y diwydiant glo a'r fagwraeth ymhlith dosbarth gorau a welwyd yn hanes gweithwyr Prydain. Bellach gwireddodd ei ddyhead nid yn unig ar gyfer pobl Minneapolis ond ar ein cyfer ni a'r genhedlaeth iau. Dywedodd yr Athro Hywel Francis, arbenigwr ar hanes y diwydiant glo yn Ne Cymru, yn ei Ragair diddorol (tt. 6 i 8) y mae'r atgofion o'i blentyndod ym mhentref Garnant a Chwm Aman yn cofnodi ffordd o fyw sydd bron a'n gadael – y capeli yn unig sydd ar ôl ac y mae y rheiny yn diflannu gyda sydynrwydd affwysol. Meddylier dim un Capel Presbyteraidd Cymraeg na Saesneg yn nhref Caerfyrddin. Cywilydd arnynt yng Nghaerfyrddin ac efallai fod hi'n well ychydig yn Garnant a Glanaman. Atgyfnerthu a wna hynny fy namcaniaeth fod diflanniad y meysydd glo yn golygu diflanniad capeli Ymneilltuol. Byd y pyllau glo yw byd y plentyn hwn – byd pwll glo y Raven – y plentyn deallus oedd yn dyheu am lyfrau yn y tri degau. Disgrifia yn graffig y byd hwnnw i'r wraig a'i gŵr ac i'r plant, a chawn gipolwg ar ei rieni darbodus na bridodd mewn Capel i arbed arian, a'i dad-cu call ac eithriadol o ddifyr i'r bychan.

Naw pennod sydd yn y gyfrol a phob un wedi ei ysgrifennu gan lenor o'r radd flaenaf, a'r bennod orau i gyd yw'r un ar y sinema. Cefais fy ngeni yn yr un cyfnod â Vivian ond heb sinema. Dyna golled ar ôl darllen y cameo godidog. Y mae'r bennod ar y capel yn y dosbarth cyntaf fel pob pennod ond y mae un gwyn gennyf, y duedd i adael allan enw cymeriad yr hoffwn gael ei enw. Er enghraifft mae'n canmol Gweinidog capel y Bedyddwyr Glanaman, un a feddai ar yr hwyl Gymreig, fel cymaint o'i gyfoeswyr ym mhob enwad gan gynnwys y ficeriaid. Cymraeg. Ai y Parchedig John Thomas oedd pregethwyr yr hwyl? Daw yr ateb yn Taro Post? Ychydig iawn o gyfeiriadau a gawn at wleidyddiaeth. Cofier fod Garnant yn gadarnle y Blaid Lafur. Pam anwybyddu pobl y Blaid Lafur? Daw Jim Griffiths i fewn mae'n sicr pan ymladdodd Is-Etholiad Llanelli yn 1936. Gwelodd Jim ond nid oes syndod yn ei arddull o weld y gŵr grymus yr oedd ei dad-cu yn ei hanner addoli. Beth am gefnogwyr Jim yn y Garnant. Ni chrybwylla enw y Cynghorydd R. O. Rees, diacon a thrysorydd Capel a Chymro i'r carn a Llafurwr o argyhoeddiad. Enw arall a ddylai fod wedi dod i fewn i fyd plentyn ydy D. R. Owen, glowr deallus a darlithydd dosbarthiadau oedolion. Mae'n sicr fod rhesymau digonol na chafodd y ddau a enwais ei gadael allan o'r bennod gofiadwy ar ei dad-cu. Ni allwn adael y gyfrol o'm dwylo. Darllenais hi i gyd ar un eisteddiad. Dyna y thrill i chwithau a bryna'r gyfrol am atgofion y plentyn bach a dyfodd yn ddiwynydd cyffrous ac un o hoelion wyth Mudiad Cristnogaeth 21.






*Blaencwm,*
*Moel Ganol,*
*Parc Hendy,*
*Yr Wyddgrug.*

## ATGOFION AM HEDD WYN

Annwyl Dr. Rees,

Wrth anfon cyfraniad tuag at y garreg goffa, dyma hel atgofion oedd gan fy nhaid o Hedd Wyn. Roedd Hedd Wyn a fy nhaid y ddiweddar J. W. Jones (Joni Bardd), Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog yn ffrindiau pennaf. Byddai y ddau yn cyfarfod bob wythnos cyn y rhyfel.

Dywed fy nhaid amdano, "Nid oes dim ymffrost yn perthyn iddo, mae mor ddirodres a blodyn y grug". Lluniodd Hedd Wyn englyn i gyfarch fy nhaid a nain ar eu priodas yn 1913.

Llythyr gan fy nhaid oedd un o'r rhai cyntaf i ddatgan ei gydymdeimlad â theulu Yr Ysgwrn.

Gellir gweld y llythyr yng nghyfrol Alan Llwyd, *Gwae Fi Fy Myw*. Dywed yn y llythyr am fy nhad, "Y peth diwethaf wnaeth cyn ymadael â mi y Nos Sadwrn olaf cyn myned i ffwrdd, oedd rhoddi cusan ar rudd fy hogyn bach i, a ceiniog yn ei boced".

Casglodd yn helaeth nifer fawr o gerddi Hedd Wyn i'r gyfrol goffa. Fe ysgrifennodd lawer o feirdd cerddi coffa. Un a anfonodd gyfres o englynion coffa at fy nhaid oedd Eifion Wyn er mwyn eu cyhoeddi yng ngholofn J. W. Jones 'Y Fainc Sglodion' yn y papur lleol, *Y Rhedegydd*. Jini Owen, cariad Hedd Wyn, wedi cadw cysylltiad agos efo fy nhaid a nain ac wedyn efo fy rhieni, a chofiaf amdani yn wraig annwyl a charedig.

Trist iawn deall fod carreg yn cael ei mewnforio o'r India yn hytrach nag un o Feirionnydd i goffáu un o hogia'r fro.

*Yr eiddoch yn gywir,*

*Menna Evans*

# Eisteddfod Cymry Manceinion

Nos Sadwrn , Ebrill 8fed daeth Cymry Manceinion at ei gilydd i Noddfa Oaker Avenue i'n Noson Lawen / Eisteddfod flynyddol. A chawsom noson i'w chofio. Y beiniaid Llên a Cherdd oedd y Parch Ddr Huw John Hughes, Porthaethwy a Mr Gareth Evans Manceinion ac mae'n diolch iddynt am eu beirniadaethau ardderchog. Yn absenoldeb Mrs Eflyn Evans, oherwydd sawlwch, daeth Mrs Gwenda Watson i'r adwy i feirniadu'r Coginio a hynny ar fyr rybudd. Mr Elwyn Evans a gafodd y dasg o feirniadau'r ffotograffiaeth – ac roedd y bwrdd yn llawn o luniau blodau hyfryd, gwaith anodd i'r beriniad!

Cyfansoddi tôn i eiriau'r emyn 'Mi glywaf dyner lais' oedd yr her eleni. Cafwyd dau ymgeisydd a hyfryd oedd cael clywed y ddwy dôn yn cael eu chwarae. Lilian Garrett enillodd gwpan Hywel Jones gyda Trefor Davies yn dod yn ail teilwng iawn. Da fyddai defnyddio y tonau hyn sy'n cael eu cyfansoddi yn flynyddol – maent yn haeddu mwy o gydnabyddiaeth.

Daeth cnwd o linellau coll i law a dyma bedair llinell gyntaf y limrig:

*Dim ond am ben wythnos 'raeth Meri*
*Am wyliau i Baris on diân ni*
*Daeth yn ôl meddan nhw*
*Yn rêl gwdihw*
*………………*

Aeth y drydedd wobr i Anne Hunt gyda'r llinell: '*A'i bryd ar briodi'n reit handi.'* A'r ail o eiddo Elwyn Evans: *'A 'toy boy' reit ddel a Ferrari'*. Ond llinell Glenys Davies gipiodd y wobr eleni: *'Rôl dawnsio y nos â Sarcosi.'* Llawer o hwyl!

Daeth y darn cyfieithu eleni allan o 'Tyn y Gorchudd' gan Angharad Price – darn anodd ond heriol. 'Roedd y Parch Huw John Hughes yn canmol safon y cystadlu yn fawr. Ond rhaid oedd dewis a Glynne Morris ddaeth i'r brig gyda'r Barch Eleri Edwards yn ail ac Elwyn Evans yn drydydd – agos iawn.

Tair telyneg yn unig ddaeth i law er siomiant i'r beirniaid. Y Pêr Ganiedydd (William Williams Pantycelyn) oedd y dewis i'r beirdd ganu amdano gan ei bod yn dri chan mlwyddiant ei eni eleni. Telyneg Anne Hunt ddaeth yn gyntaf gyda'r Barch Eleri Edwards yn ail a Glynn Morris yn drydydd.

Yn adran y coginio, Bakewell Tart roddwyd ymlaen i'r cogyddion! 'Roedd tri chynnig deniadol iawn yr olwg ar y bwrdd. Dyfarniad Gwenda Watson oedd mai ymdrech Glenys Davies oedd y fwyaf blasus gyda Mair Swift a Glenys Roberts yn cael canmoliaeth uchel.

Nid gwaith hawdd i'r beiniad Elwyn oedd dewis y llun gorau o flodyn neu flodau. 'Roeddynt i gyd yn werth eu gweld ond wedi peth pendroni, darlun o rosyn gan Howard Jones gipiodd y wobr gyntaf gyda Glenys Davies a Iestyn Roberts yn ail a thrydydd teilwng iawn.

'Roedd adloniant y noson, eto eleni, cystal ag erioed. Yr unawdwyr offerynnol oedd Dr Anthony Robins yn chwarae'r oboe, a Mr Trefor Davies yn chwarae jazz ar yr organ. 'Roedd dau grŵp lleisiol: capel Altrincham yn dehongli 'Migldi Magldi' ac Oaker Avenue yn taeru mai 'Môr o jam yw Meri Jên'. Rhoddodd John a Lilian Garrett berfformiad offerynnol ar y gitâr a Threfor a Glenys Davies ddeuawd: 'Rwy'n cofio'n dda'. Yr unawdwyr eleni oedd Glynn, Rhobet a Trefor, gyda Rhobet Williams yn canu cân werin a Mary, Irene a Glynn yn canu emyn. Amrywiaeth ardderchog o ddoniau Cymry Manceinion!

Cafwyd sawl stori digri fer a phump darn digri o lên neu farddoniaeth ac ar nodyn mwy seriws, pedwar yn darllen darn o farddoniaeth.

Rydym i gyd yn gwybod am y term 'Multi-tasking' y dyddiau yma. Dyna wnaeth Elwyn Evans ar y noson: arweinydd heb ei ail, beirniad y ffotograffiaeth ac ymgeisydd teilwng. Dim rhyfedd felly iddo dderbyn cwpan goffa David Williams. Diolch Elwyn am gynnal y noson mor rhwydd a di-drafferth.

I gloi'r gweithgareddau, ymunodd pawb i ganu 'Hen Wlad fy Nhadau' a gadael gan deimlo inni gael noson werth chweil ymhob ystyr.

---

**TELYNEG FUDDUGOL**
**MRS ANNE HUNT**
**(FFUGENW SIR GÂR)**

*Dri chan mlynedd i eleni*
*Ganwyd ein hemynydd mawr;*
*Cofio wnawn am ei gyfraniad*
*Ef yn sicr yw ein cawr.*

*Pantycelyn oedd ei gartref*
*Oddi yno teithiai'n bell*
*I ledaenu gair y Beibl*
*Ac argoeli dyddiau gwell.*

*Yn ei lyfrau sydd yn drysor*
*Ceir cyfraniad gwerthfawr ddrud:*
*Mawl y Seiat, profiad bywyd,*
*Sylfaen gadarn in o hyd.*

*Lluniodd doreth o emynau*
*Sy'n goleuo'n llwybrau ni;*
*Maent yn gymorth i'n heneidiau,*
*Angor cryf yng ngrym y lli*

*'Iesu Iesu rwyt ti'n ddigon'*
*Dyna sail ei neges fawr*
*Gwrando ar ei eiriau dwyfol*
*Cysur font i blant y llawr.*

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2017. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

• **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Gorffennaf 2017 –** erbyn bore Iau, 1 Mehefin 2017, – neu ar y we i dbenrees@gmail.com

**ii) Rhifyn Awst/Medi 2017** erbyn bore Sadwrn, 1 Gorfennaf, 2017 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk.net

**iii) Rhifyn Hydref 2017 –** erbyn bore Gwener, 1 Medi i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 11.00 o'r gloch y bore hwnnw, felly os postio, i gyrraedd 31 o Awst.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

# Rhaglen Ddwyieithog yn yr Ŵyl – 'Black Chair'- y Gadair Ddu

**Bilingual Festival Timetable to remember the centenary of the 1917 National Eisteddfod of Wales in Birkenhead and the genius of Private Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) killed at Pilkem Ridge on 31-7-1917 in yn Ysgol Wirral Hospitals' School (Campws Joseph Paxton, 157 Park Road North, Claughton) ger Birkenhead Park, Penbedw ar**
**Ddydd Sadwrn, 9 Medi a Sul 10 Medi 2017 / Saturday 9 & Sunday 10 September 2017.**

Trefnwyr y Llwyfan am y Dydd:
Mr Brian Thomas a Dr J.G.Williams ynghyd a deuddeg o stiwardiaid o Gymdeithas Gymraeg Birkenhead a Lerpwl.

**SESIWN GYNTAF/ FIRST SESSION 10.30-11.45.**
Opening of the Festival (in both Welsh and English)
*The Birkenhead Welsh and the Eisteddfod* (in Welsh):
Parchedig Ddr / Rev Professor D. Ben Rees.
*The Belgian Connection:* Emeritus Professor Robert Lee.
Cadeirydd/*Chair:* Dr Arthur Thomas, Lerpwl.

**AIL SESIWN /SECOND SESSION: 12.00-1.00.**
Honourable Society of the Cymmrodorion.
Darlith yn Gymraeg gan yr ysgolhaig a'r bardd/
Lecture by Professor Peredur Lynch, University of Bangor, on HEDD WYN
*(in Welsh with translation facilities)*
Cadeirydd / *Chair:*
Emeritus Professor Prys Morgan, University of Swansea.

**AWR I GINIO /LUNCH 1.00-2.00**

**TRYDYDD SESIWN /THIRD SESSION: 2.10-3.00**
(Lecture in English)
Dr Huw Edwards, London, on DAVID LLOYD GEORGE
Cadeirydd /*Chair*: Dafydd Llywelyn Rees, Llundain.

**PEDWERYDD SESIWN /FOURTH SESSION: 3.00- 3-50**
(in Welsh)
Cadeirio'r Bardd am gerdd neu gerddi
(dim mwy na 100 llinell) ar y testun Hedd Wyn /
*Chairing of the winning Welsh language Poet.*
Rhoddir y Gadair gan Gymdeithas Hedd Wyn, Fflanders
a hefyd £100 er cof am Alwyn Thomas
gan ei rieni Hilda a Brian Thomas, Lerpwl.
Dau gopi o'r gwaith i Dr D.B.Rees erbyn 20 Gorffennaf.
Y Prifardd Geraint Lloyd Owen
*Traddodi'r Feirniadaeth:*
Dr Robin Gwyndaf, Caerdydd ar ei ran ef a'r
Prifardd Sion Aled, Wrecsam.

**PUMED SESIWN /FIFTH SESSION: 4.15-5.00**
Dadorchuddio / *Unveiling of the Hedd Wyn Memorial*
I lywio'r Seremon / *Compere*: Dr Huw Edwards.
I siarad / *to speak:*
The Mayor of Birkenhead: Mr Frank Field. M.P.
Emeritus Professor Robert Lee
Mr Carwyn Jones, First Minister of Wales
The Birkenhead Welsh Society
Merseyside Welsh Heritage Society
The Archdruid of Wales.
Cenir gan Gôr Bara Brith o Ynys Môn
The Bara Brith Choir from Anglesey will take part.

**5.15-6.00 – TEA**

**CHWECHED SESIWN / SIXTH SESSION: 6.15-7.00**
Coroni y Beirdd Ieuainc (11-20 mlwydd oed) ar gerdd neu gerddi (dim mwy na 50 llinell) /
*not more than 50 lines on a poem or poems in English on Hero.*
*The same for young Welsh poets in the welsh Language/*
Disgwylir i'r bardd ifanc lunio cerdd neu gerddi
ar yr Arwr yn Gymraeg
*Crowning of the Poets by the Archdruid.*
*These poems to be sent to Ysgwrn, Trawsfynydd by July 20*
Beiriniaid am y Goron Saesneg:
(rhoddedig gan y Parchedig D. Ben Rees a Mrs Meinwen Rees) a gwobr o £50 (rhoddedig gan Dr J. G. Williams)
*Adjudications:*
Professor Deryn Rees Jones and Eleanor Rees (English);
Beirniad am y Goron Gymraeg
(rhoddedig gan deulu Gwilym Prys -Davies (1923-2017)
a £50 (rhoddedig gan Mrs Beryl Williams, Lerpwl )
Sef Aled Lewis Evans, Wrecsam, Mrs Nan Hughes Parry
a Dr Pat Williams, Lerpwl (Welsh).

**SEITHFED SESIWN/SEVENTH SESSION: 7.15-8.00**
Côr Ieuenctid Môn
Cadeirydd:/ *Chairman - TBA*

**WYTHFED SESIWN /EIGHTH SESSION: 8.30-10.00**
**CYNGERDD/CONCERT**
Côr Rygbi Gogledd Cymru/North Wales Rugby Choir
Cadeirydd: heb ei gyhoeddi. *Compere*: Meurig Rees
Digon o le i barcio ceir o fewn meysydd parcio yr Ysgol /
*Room to park your car in the schools car park.*

Darperir bwyd am bris rhesymol yn ystod y dydd gan ddisgyblion hynaf yr Ysgol /
*Refreshment will be prepared and sold by young students of the Wirral Hospital School.*

## BORE SUL / SUNDAY MORNING

**10 MEDI / 10 SEPTEMBER 2017**
yng nghapel Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Seion,
Laird Street, Penbedw / Birkenhead

**10.45-12.00: BILINGUAL SERVICE**
*Rev. Dr Ben Rees and Ministers*
*and Côr Rygbi Gogledd Cymru /*
Gwasanaeth Dwyieithog gyda Chôr Rygbi Gogledd Cymru.
(Arweinydd/*Conductor:* Geraint Roberts )

**12.15-1.45: LUNCH / CYFLE AM GINIO**

**2.00-3.30: CYMANFA GANU / SINGING FESTIVAL**
Yn y Gymanfa hon ceir cyfraniadau gan Gor Rygbi Gogledd Cymru a hefyd Rhosllanerchrugog Orpheus Male Voice Choir
Arweinydd/*Conductor:* Alwyn Humphreys, Cardiff.

---

*Entrance to the Festival on 9-9- 2017 by the Festival Programme* ( Pris/ Price £5).
Tocynnau ar werth ar Gorffennaf 1.
*Ticket to both Concerts - £10. – can be bought from benatgarthdrive @talktalk.net*


***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn,*
*Y Bala, Gwynedd LL23 7UH*
*07729 960484*

# *UN O DEULUOEDD LERPWL*



***(o'r chwith i'r dde) Dafydd a'i fam Jenny, Siân a Ceri, Dennis, Lisa ac Alun***

Yn archif y Golygydd ceir llun o un o deuluoedd Lerpwl, teulu Siân a Dennis Hartley, Allerton. Gwyddom am gyfraniad Siân i Ddosbarthiadau y Dysgwyr, i gapel Bethel, ac i'r bywyd Cymraeg dros y blynyddoedd. Y mae Dennis bellach wedi ymddeol o Brifysgol Lerpwl ac yn barod iawn ei gymwynas ym myd y rhyngrwyd. Y mae ganddynt dri o blant, sef Jenny (yr hynaf), Alun a Lisa. Mwynha taid a nain gwmni yr wyres Ceri a'r ŵyr Dafydd. Tynnwyd y llun hwn yng ngerddi Bodnant.




***Roderick yn derbyn teisen penblwydd yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Cymry Lerpwl***

## Cyfrol ar y Ffordd

